OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 969

## Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Ffioedd) (Cymru) 2018

**Ffioedd penodedig sy'n daladwy am gydsyniadau eraill**

**6.**—(1) Rhaid i drwyddedai sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ar gyfer gweithgaredd neu fater a restrir yng ngholofn gyntaf Tabl 2 dalu'r ffi gyfatebol yn ail golofn y tabl hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid talu'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) ar adeg gwneud y cais, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai y caniateir i'r ffi gael ei thalu ar ddyddiad diweddarach.

(3) Mewn perthynas â'r gweithgareddau a restrir ym mharagraff (4), rhaid i'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) gael ei thalu o fewn 30 diwrnod i'r adeg y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai am y penderfyniad ynghylch y cais oni bai bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai y caniateir i'r ffi gael ei thalu ar ddyddiad diweddarach.

(4) Mae'r gweithgareddau fel a ganlyn—

(a) cais am gydsyniad i estyn tymor cychwynnol, ail dymor neu dymor terfynol trwydded petrolewm;

(b) cais am gydsyniad i ddiwygio rhaglen waith.

**Tabl 2**

| *Gweithgaredd neu fater y mae cydsyniad yn ofynnol ar ei gyfer* | *Y ffi sy'n daladwy* |
|---|---|
| Drilio prif ffynnon | £729 |
| Drilio ffynnon ddargyfeirio sy'n fforchio o'r brif ffynnon i leoliad targed gwahanol i'r brif ffynnon | £596 |
| Gosod neu ailosod offer mewn ffynnon at ddiben galluogi cynhyrchu neu chwistrellu hydrocarbon | £566 |
| Cael gafael ar betrolewm o ardal drwyddedig | £1,052 |
| Newid cydsyniad er mwyn cael gafael ar betrolewm o ardal drwyddedig | £1,052 |
| Llosgi neu awyru petrolewm o ffynnon | £765 |
| Newid cydsyniad i losgi neu awyru petrolewm o ffynnon | £765 |
| Atal ffynnon dros dro | £596 |
| Ailddechrau defnyddio unrhyw ffynnon sydd wedi ei hatal dros dro | £566 |
| Cefnu ar ffynnon yn barhaol | £566 |
| Newid trwyddedai trwydded petrolewm | £401 |
| Newid y buddiolwr hawliau a roddir gan drwydded petrolewm | £401 |

| *Gweithgaredd neu fater y mae cydsyniad yn ofynnol ar ei gyfer* | *Y ffi sy'n daladwy* |
|---|---|
| Penodi gweithredwr o dan drwydded petrolewm | £1,201 |
| Estyn tymor cychwynnol, ail dymor neu dymor terfynol trwydded petrolewm | £1,000 |
| Diwygio rhaglen waith | £1,000 |